# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# CYNGOR CYMUNED BUAN 2021 / 2022

Pleser yw cyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Buan sy'n cofnodi'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2021 / 2022. Bwriad yr adroddiad yw rhoi crynodeb o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wahanol wasanaethau o fewn yr ardal.

Rhai o gyfrifodebau'r Cyngor yw:-

- Gosod y praesept a ddosberthir i'r Cyngor bob blwyddyn;
- Trafod ceisiadau cynllunio o fewn y gymuned a cyflwyno'r penderfyniadau i Bwyllgor Cynllunio Gwynedd;
- Hysbysu adrannau perthnasol Cyngor Gwynedd am gyflwr ffyrdd a.y.b.
- Cynnal a chadw - Mynwent Llanfihangel; Cae pentref Rhydyclafdy a Mynwent Boduan;
- Cyfrannu at geisiadau am arian oddi wrth fudiadau / elusennau a.y.b.;

Mae 10 o gynghorwyr ar y Cyngor yn cynrychioli wardiau Bachellaeth, Boduan a Ceidio, gyda'r Cynghorydd Sir, Mrs. Anwen Davies hefyd yn mynychu cyfarfodydd. Etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y Cyfarfod Blynyddol a'r Cynhorydd Hughie Williams oedd y Cadeirydd am y flwyddyn 2021 / 2022 gyda'r Cynghorydd Rhys Jones yn Is-gadeirydd.

Cafwyd 11 cyfarfod yn ystod y flwyddyn, 10 dros Zoom ac 1 wyneb yn wyneb. Diolch i bawb a fynychodd ac am wneud eu gorau dros y gymuned. Mae pob un o'r cynghorwyr yn gwneud eu gwaith yn ddi-dal.

Cynhelir y cyfarfodydd ar yr ail nos Iau o bob mis yn nhafarn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 p.m.

Yn ystod y flwyddyn fe osodwyd diffibrilwyr yn y gymuned ac erbyn hyn mae 4 ar gael ym mhlwy Cyngor Cymuned Buan, 1 yn Talybont Rhydyclafdy, 1 yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy, 1 yng Ngwr Coed, Boduan a'r llall ger Capel Ceidio.

Bu i'r Clerc, Mrs. Rhian Holt, ymddiswyddo o'i swydd ym mis Hydref ar ôl blynyddoedd maith o wasanaeth a diolchir iddi am ei gwaith taclus a darbodus bob amser. Fe gyflogwyd Angela Moore ym mis Hydref , ond oherwydd amgylchiadau personol ni allai gario mlaen efo'r swydd. Ym mis Chwefor 2022 penodwyd Nerys Williams yn Glerc ar y Cyngor.

Os oes angen mwy o wybodaeth am y Cyngor yna mae i'w gael ar www.buan.org.uk